

Crynodeb o fentrau monitro peillwyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn deillio o archwiliad o fentrau monitro peillwyr o bob cwr o'r byd. Rydym wedi derbyn gwybodaeth am 71 o fentrau, ac mae'r nifer fesul rhanbarth wedi'i nodi isod.

Cwmpas daearyddol

DU	19	
Ewrop	28	
Gogledd America	16	
De America	5	Gwybodaeth ar gael ar gyfer Chile yn unig ar hyn o bryd (nid y 4 arall)
Awstralia	1	
Affrica	1	
Asia	1	Mae un fenter ar waith yn Cambodia ond nid yw'r manylion ar gael

Mae'r rhain yn cynnwys mentrau ar raddfa gyfandirol (e.e. Atlas lepidopteraidd Affrica), mentrau sy'n cynnwys nifer o wledydd (e.e. symudiadau glöyn y llaethlys – UDA, Canada a Mecsico; SOLATIna – nifer o wledydd America Ladin), mentrau lefelau cenedlaethol, mentrau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol o fewn gwledydd (e.e. prosiect y gacynen blewyn cwta yng Nghaint a Dwyrain Sussex, y DU) a mentrau ar lefel dinas benodol (e.e. gwenyn trefol a gwledig Belgrade, Serbia; prosiectau gwenyn GT yn Nord Pas de Calais, Ffrainc). Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau hyn (50/71) yn parhau i fynd rhagddynt; Mae 7 wedi dod i ben; a'r gweddill heb eu cadarnhau.

Grwpiau tacsonomaidd

Mae nifer y mentrau sy'n canolbwyntio ar y grwpiau tacsonomaidd gwahanol fel a ganlyn

Cacwn	28
Gwenyn mêl	24
Gwenyn gwyllt	24
Pryfed hofran	12
Pryfed eraill	9
Gloynnod Byw	26
Gwyfynod	13
Cacwn	12
Tacsanomau eraill	12

Hefyd, mae pedair menter yn darparu rhywfaint o wybodaeth am lefel y gwasanaeth peillio

Math a dulliau cofnodi

Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau (50/71) yn dibynnu ar ddata sy'n cael ei gasglu gan wyddonwyr sy'n wirfoddolwyr/dinasyddion. Yn ogystal ag arbenigwyr yn lanlwytho neu'n coladu'r hyn sy'n cael ei

weld a'i gofnodi gan wirfoddolwyr, mae'r mentrau gwahanol yn defnyddio dulliau amrywiol i gasglu data, ac mae llawer yn defnyddio dulliau lluosog.

Trawsluniau safonedig	11
Trapiau padell	3
Trapiau sugno	1
Rhwydi llaw/ysgubo	4
Cofnodion lluniau gwyddoniaeth dinasyddion	13
Cerbydau awyr di-griw / dronau	1